Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Wirfoddol Penboyr
# Felindre
# Llandysul
# Sir Gaerfyrddin
# SA44 5XG

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Wirfoddol Penboyr yng nghanol pentref gwledig Felindre, ger tref Castell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin.

Mae 105 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Maent wedi'u trefnu'n bedwar dosbarth sy'n cynnwys 7 o ddisgyblion yn y dosbarth Meithrin. Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Daw tua 30% o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 18% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n is na chyfartaleddau Cymru. Mae oddeutu 14% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan awdurdod arall.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Wirfoddol Penboyr yn 2015-2016 yn £3,777 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r lleiafswm yw £3,111. Mae Ysgol Wirfoddol Penboyr yn y 35ain safle o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2007. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth pan fydd ei angen
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau cynhwysfawr a diddorol ar draws yr ysgol
- Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addas i sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion
- Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach
- Mae'r cysylltiadau rheolaidd gyda gwasanaeth asiantaethau allanol yn galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth effeithiol i ddisgyblion a chyfoethogi eu dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar eu lles
- Mae gan yr ysgol ethos croesawgar a theuluol
- Mae'r ardal allanol yn adnodd cyffrous sy'n darparu amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella safonau a lles y disgyblion
- Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda
- Mae yna gyswllt da rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol
- Mae gan yr ysgol lawer o bartneriaethau effeithiol a chefnogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn trefnu'r staff addysgu yn llwyddiannus
- Mae tîm medrus a brwdfrydig o weinyddesau yn darparu cymorth effeithiol
- Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen disgyblion

A2 Cynyddu annibyniaeth disgyblion i'w galluogi i wella eu gwaith eu hunain a gwneud penderfyniadau am eu dysgu

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd disgyblion i sicrhau eu defnydd cyson o'r iaith Gymraeg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion wrth ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol islaw'r disgwyl. Fodd bynnag, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r medrau ganddynt i siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon a gall y mwyafrif ar frig cyfnod allweddol 2 gynnal sgyrsiau estynedig. Mae llawer yn barod i gyfrannu i drafodaethau dosbarth yn hyderus.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol ac yn unol â'u galluoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu darllen yn fwyfwy rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Mae ychydig yn dechrau trafod eu llyfrau yn synhwyrol ac mae ganddynt wybodaeth gynyddol am wahanol fathau o lyfrau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir, gyda dealltwriaeth dda sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau eu llyfrau cyfredol yn briodol. Fodd bynnag, lleiafrif o'r disgyblion sy'n trafod amrywiol destunau ac ateb cwestiynau'n effeithiol ynglŷn â'r llyfrau maent yn eu darllen. Maent yn deall diben llyfrau ffeithiol ac yn rhannu'u barnau yn bwrpasol yn ystod trafodaethau, er enghraifft yn eu hymchwil ar y gwahanol rymoedd sy'n effeithio ar barasiwt. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau cip ddarllen a llithr ddarllen testunau yn bwrpasol er mwyn dod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae eu hysgrifennu'n datblygu'n dda. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n bwrpasol gan ddangos hyder a mwynhad, er enghraifft wrth iddynt ddwyn i gof stori'r hugan fach goch. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o sillafu a strwythur brawddegau sylfaenol. Maent yn defnyddio ystod dda o eirfa ac yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol. Maent yn ailadrodd storïau ac yn cofnodi ffeithiau yn gywir yn eu harddulliau ysgrifenedig eu hunain, yn electronig ac ar bapur. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu i'r un safon y maent yn ei chyflawni mewn gwersi llythrennedd mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad manwl o gylch bywyd y wenynen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Maent yn dechrau defnyddio medrau drafftio yn llwyddiannus i ddatblygu a gwella eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir wrth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol ar draws ystod o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan atalnodi a pharagraffu eu gwaith yn bwrpasol. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio llawysgrifen glir ac yn

cyflwyno gwaith yn daclus. Fodd bynnag, mae’r nifer helaeth o daflenni gwaith yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus a chyson ar draws pob maes dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan rhan fwyaf y disgyblion fedrau rhif da, a defnyddiant restrau, tablau a diagramau syml i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth yn gywir. Mae llawer ohonynt yn deall mesuriadau syml ac mae ganddynt wybodaeth dda am siâp.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn dda, a gallant ddewis dulliau amgen i ddatrys problemau’n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cyfrifo’r gost o archebu bwyd i gynnal caffi rhyngweithiol yn gywir. Mae gan ddisgyblion mwy abl ystod dda o dechnegau ar gyfer lluosi a rhannu’n gymwys, ac maent yn defnyddio cyfesurynnau’n hyderus. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn pynciau eraill. Er enghraifft, yn ystod eu hastudiaeth o Mari Jones, mae’r disgyblion hŷn yn cyfrifo’r milltiroedd teithiodd y disgyblion i’r Bala ac yn nôl ac yn cyfnewid rhwng milltiroedd a chilometrau.

Mae medrau meddwl a datrys problemau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae perfformiad y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella ac maent bellach yn cymharu’n fwy ffafriol gyda disgyblion eraill. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni’r targedau sy’n cael eu gosod ar eu cyfer.

O gymharu ag ysgolion tebyg, dros bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig wedi amrywio rhwng y 50% uwch a’r 50% is mewn llythrennedd Cymraeg a rhwng 25% uchaf a’r 50% is mewn datblygiad mathemategol.

Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant uwch mewn llythrennedd Cymraeg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a’r 50% uchaf. Mewn datblygiad mathemategol, mae’r perfformiad yn dangos tuedd ar i fyny o 50% is i 25% uchaf.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch yn y pedwar pwnc craidd wedi amrywio dros gyfnod o bedair blynedd. Mae perfformiad mewn Cymraeg wedi gogwyddo rhwng yr 50% is a’r 25% uchaf. Mae perfformiad mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% isaf a’r 25% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

## Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth pan fydd ei angen. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn groesawgar a chwrtais tuag at ymwelwyr ac yn arddangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd ei angen arnynt i fyw'n iach. Deallant effaith gadarnhaol bwyta ac yfed yn iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae llysgenhadon efydd yr ysgol yn atgyfnerthu'r agwedd hon yn effeithiol ymysg y disgyblion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i ddysgu. Mae medrau dysgu annibynnol llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Er hynny, nid yw'r disgyblion bob amser yn gwneud digon o ddewisiadau mewn perthynas â chynnwys eu gwersi.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ac mae rôl y cyfeillion iard chwarae yn datblygu'n dda. Mae cyngor yr ysgol yn cynrychioli llais y disgyblion yn effeithiol ac wedi cyflwyno offer gorsaf radio i'r ysgol. Mae grwpiau o ddisgyblion eraill, fel yr arweinwyr digidol, yn llwyddiannus wrth gefnogi medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) nifer o ddisgyblion. Mae'r criw mentrus yn cynnig cyfleoedd entrepreneuriaidd i lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf. Erbyn hyn, mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau cynhwysfawr a diddorol ar draws yr ysgol sy'n bodloni holl ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at wau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i mewn i'r cynllunio ac mae cyfleoedd aml i atgyfnerthu'r medrau ehangach. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn creu ffilmiau byr am hanes yr ardal leol ac yn darlledu'n fyw ar radio Penboyr yn rheolaidd. Mae gan yr ysgol ymyraethau effeithiol i gefnogi disgyblion.

Mae'r athrawon yn cynllunio profiadau ysgogol, er enghraifft dilyn siwrnai Nel Fach y Bwcs i Batagonia. Mae'r profiadau hyn yn cael eu cyfoethogi'n fedrus drwy ymweliadau addysgol tymhorol a thrwy ystod gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol. Maent yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddatblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau defnydd cyson o'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru yn gryfder yn yr ysgol. Mae cyfleoedd cyson ar gyfer astudio hanes lleol, chwedlau a hanes Cymry enwog. Mae'r

ysgol yn cyfrannu yn eu cymuned ac yn genedlaethol drwy weithgareddau fel yr Urdd a digwyddiadau lleol fel dathlu Calan Hen yn yr eglwys leol. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o’u hetifeddiaeth, ac yn gymorth iddynt ddeall eu rôl o fewn y gymuned.

Mae’r ysgol yn cynnig profiadau sy’n sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion cynaliadwyedd. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd i godi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang drwy weithgareddau elusennol a gan ganolbwyntio ar faterion cyfredol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda, ac yn y rhan fwyaf o wersi maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addas i sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Maent yn holi’n dreiddgar er mwyn ymestyn medrau deall a meddwl disgyblion yn dda. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw’r gweithgareddau dysgu wedi eu haddasu er mwyn sicrhau bod disgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd llawn.

Mae’r athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn marcio eu gwaith yn rheolaidd ac, mewn llawer o’r llyfrau, maent yn cynnwys sylwadau adeiladol ar sut i wella’r gwaith. Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, anghyson yw’r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol er mwyn cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddiwallu anghenion disgyblion penodol. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer y corff yn rheolaidd a chadw eu hunain yn ddiogel.

Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol a moesol mewn sesiynau amrywiol rheolaidd. Maent hefyd yn hyrwyddo agweddau diwylliannol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn trwy gyflwyno prosiectau cwricwlaidd, er enghraifft am William Morgan, Mary Jones a thwf y Beibl Cymraeg yng Nghymru.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd addas a rheolaidd o wasanaeth asiantaethau allanol, fel yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a’r seicolegydd addysg. Mae’r cysylltiadau hyn yn galluogi’r ysgol i ddarparu cymorth effeithiol i ddisgyblion a chyfoethogi eu dealltwriaeth o faterion sy’n effeithio ar eu lles. Mae gweithdrefnau’r ysgol i wella presenoldeb dros gyfnod wedi bod yn llwyddiannus.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac maent yn gweithredu'n gynnar ac yn bwrpasol arnynt. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn nodi targedau priodol iddynt, ynghyd ag ymyrraethau penodol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd ac yn cynnwys y rhieni yn gyson drwy'r broses gyfan. O ganlyniad, mae'r ysgol a'r rhieni yn medru gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'i gilydd er lles y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar a theuluol. Caiff y disgyblion hawl gyfartal i holl feysydd dysgu a'r ddarpariaeth. Mae'r holl staff yn annog ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol ac yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch a gofal. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, sy'n cynnwys nifer o gyfrifiaduron a llechi amrywiol a gwneir defnydd llawn o'r adnoddau perthnasol. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau'r disgyblion. Mae'r gofod dysgu o fewn yr adeilad yn cyfrannu'n effeithiol tuag at fodloni anghenion y disgyblion i gyd.

Lleolir yr ysgol ar safle braf a gwneir defnydd effeithiol o'r holl safle. Mae'r ardal allanol yn adnodd cyffrous sy'n darparu amgylchedd ysgogol ac amrywiol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r ardal myfyrio a gweddïo a grëwyd gan y disgyblion, y staff ac aelodau o'r gymuned, yn cynnig man heddychlon ar gyfer myfyrio tawel. Mae'r ardaloedd eraill yn cynnig cyfleoedd arbennig i ddisgyblion ehangu eu medrau ieithyddol a chreadigol. Mae'r holl amgylchedd yn annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar wella safonau a lles y disgyblion. Mae hi wedi sefydlu blaenoriaethau clir, ac mae'n cydweithio'n frwd â'r staff, disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr i symud yr ysgol yn ei blaen.
Mae'r holl staff yn cydweithio'n agos i greu ethos ysgol gyfan cefnogol. Mae swydd ddisgrifiadau perthnasol gan yr holl staff ac mae arweinwyr yn adolygu'r rhain yn rheolaidd trwy drefniadau rheoli perfformiad effeithiol. Mae'r pennaeth a'r staff yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a leol yn effeithiol, gydag ymrwymiad pwrpasol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn elwa'n llawn ar ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn gostwng effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn bwrpasol, er enghraifft trwy fentrau iechyd a lles effeithiol.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n bwrpasol ar wella safonau, blaenoriaethau'r ysgol a mentrau cenedlaethol. Mae'r staff yn monitro gwaith y disgyblion, arsylwi gwersi a defnyddio data yn briodol i ddadansoddi cynnydd a chanlyniadau er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant. Dros gyfnod, mae'r staff wedi llwyddo i godi safonau

mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, yn ogystal â gwella cyrhaeddiad bechgyn, a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae'r aelodau yn mynychu cyrsiau hyfforddiant sy'n eu galluogi i ddatblygu eu rôl a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Trwy ymweld â'r ysgol yn rheolaidd a chyfrannu i gyfarfodydd i ddadansoddi data, maent yn gweithredu eu rôl fel cyfaill beirniadol yn dda. Maent yn cynnig her briodol i'r ysgol sy'n arwain at sicrhau gwelliant yn ansawdd y dysgu a'r addysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunan arfarnu wedi'i sefydlu'n dda. Mae'n seiliedig ar raglen fonitro glir sy'n ystyried asesiadau gwaith disgyblion, arsylwadau gwersi a chasglu barn y llywodraethwyr, disgyblion, staff a'r rhieni.

Mae data perthnasol fel y profion cenedlaethol rhifedd a llythrennedd yn cael eu dadansoddi'n fanwl. Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i gynllunio camau gwelliant pellach ac adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, a luniwyd gan y pennaeth a'r staff, yn rhoi darlun gonest o'r ysgol. Mae'n nodi barn glir am gyrhaeddiad disgyblion a'r mannau lle mae angen gwelliant o ran safonau a'r ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae cyswllt da rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae hyn yn arwain at dargedau gwelliant heriol, gyda blaenoriaethau clir a thargedau penodol er mwyn sicrhau gwelliant. Mae'r cynllun datblygu yn un cynhwysfawr sy'n cynnwys targedau meintiol, costau, a chamau gweithredu, gan nodi'r athrawon sy'n gyfrifol amdanynt. Mae hyn wedi arwain at welliannau pwrpasol mewn safonau llythrennedd a medrau TGCh disgyblion yn ogystal â'u presenoldeb.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol lawer o bartneriaethau gwerthfawr a chefnogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion.

Mae'r gymdeithas rhieni a ffrindiau'r ysgol wedi codi symiau sylweddol o arian i wella'r cyfleusterau dysgu yn yr awyr agored ac i ychwanegu tuag at adnoddau technolegol. Mae llawer o'r rhieni yn mynychu gweithdai cwricwlaidd yn yr ysgol i'w helpu i gynorthwyo eu plant gartref. Maent hefyd yn rhannu eu harbenigedd mewn gwahanol feysydd, er enghraifft, i greu gemwaith ac i ddysgu sut mae ffeltio. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar godi safonau ac i ymestyn medrau'r disgyblion.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Gwneir defnydd effeithiol o fudiadau fel y gymdeithas hanes i wella'r ddarpariaeth ac ymestyn safonau'r disgyblion. Mae'r bartneriaeth agos gyda'r eglwys yn cynnig cyfleoedd eang i alluogi'r disgyblion i ymarfer eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol yn dda, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau diolchgarwch a'r Nadolig.

Mae’r cynllunio strategol gyda’r ysgol feithrin yn sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion newydd. Mae trefniadau pontio sefydledig â’r ysgolion cyfun lleol yn sicrhau bod rhan fwyaf o’r disgyblion yn hyderus i symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ysgolion lleol er mwyn sicrhau cysondeb wrth safoni a chymedroli gwaith y disgyblion. Mae'r athrawon yn ymweld ag ysgolion cyfagos i rannu arferion da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a’r dysgu.

Mae partneriaethau sy’n bodoli gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol a’r awdurdod iechyd, yn cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer addas o athrawon sy’n sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad llawn i’r cwricwlwm. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn trefnu’r staff addysgu yn llwyddiannus. Gwneir y defnydd gorau o’u hamser, arbenigedd a’u diddordebau. Mae tîm medrus a brwdfrydig o weinyddesau yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion.

Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn effeithiol ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff. Mae’r ysgol yn datblygu’n gymuned ddysgu effeithiol sy’n cael effaith gadarnhaol ar les ac ar wella medrau iaith a rhifedd y disgyblion.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Mae’r arweinwyr yn defnyddio’r cyllid yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a threfnu hyfforddiant pwrpasol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi datblygiad emosiynol ac addysgol disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

O ran deilliannau’r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6693307 - Ysgol Wirfoddol Penboyr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 23 | 13 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 82.6 | 84.6 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.4 | 91.7 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.7 | 25.0 | 13.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 13 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.0 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.7 | 38.5 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 13 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.3 | 92.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.4 | 38.5 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6693307 - Ysgol Wirfoddol Penboyr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 12 | 10 | 19 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.3 | 66.7 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 12 | 10 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 66.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 16.7 | 80.0 | 36.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 12 | 9 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 58.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | 8.3 | 66.7 | 26.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 12 | 10 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 83.3 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 16.7 | 60.0 | 42.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 12 | 10 | 19 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 83.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 16.7 | 60.0 | 36.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 58 | 58 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 58 | 58 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 58 | 58 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 58 | 58 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 58 | 58 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 58 | 57 | 1 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 58 | 58 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 58 | 58 | 0 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 58 | 57 | 1 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 57 | 57 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 58 | 56 | 2 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 57 | 53 | 4 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 9 | 4 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 60% | 27% | 13% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 5 | 8 | 0 | 2 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 33% | 53% | 0% | 13% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 7 | 6 | 2 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 47% | 40% | 13% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 15 | 4 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 27% | 73% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 8 | 5 | 0 | 2 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 53% | 33% | 0% | 13% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 6 | 6 | 1 | 2 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 40% | 40% | 7% | 13% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 12 | 6 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 6 | 7 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 40% | 47% | 13% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 12<br>80% | 1<br>7% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 5<br>38% | 6<br>46% | 2<br>15% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 6<br>40% | 7<br>47% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 8 | 4<br>50% | 4<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 8<br>53% | 7<br>47% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 4<br>29% | 8<br>57% | 2<br>14% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Carol James | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

## Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

## Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.